CEWC CYMRU

COUNCIL FOR EDUCATION IN WORLD CITIZENSHIP - CYMRU

NEWSLETTER

SUMMER

07

Active citizenship for Wales and the world

THINKING CITIZENS: THE NEW CHALLENGE

CEWC-Cymru has seen a significant increase in demand for **Philosophy for Children (P4C)**, a method which helps pupils develop their thinking skills through open exploration of ideas in the classroom. Over the 2006-07 school year, we have been asked to deliver 7 in-service training days in this area, as well as shorter sessions and classroom demonstrations. For 2007-08, our training diary is already filling up.

The value of P4C is highlighted by the introduction of Thinking Skills into Wales's national curriculum. From 2008, schools will need to develop critical thinking, reflection and self-evaluation within all subject areas. The new Framework for Personal and Social Education will also emphasise that such skills underpin the whole direction of PSE.

Here is a summary of feedback from a recent CEWC-Cymru thinking skills course for headteachers:

*100% of participants **agreed strongly** that:*

- "Today's course has enhanced our knowledge of thinking skills and how they relate to PSE/citizenship education."
- "The course has increased our interest in thinking skills and the Philosophy for Children method in particular."

Which part(s) of the day did you find the most useful, and why?

- "The entire day was a great help to understand and help deliver citizenship and Philosophy for Children. The use of resources in classes was extremely helpful."
- "I found the whole day useful and could see it fitting not only into the PSE Framework but further enhancing the ethos of the school."

How could this sort of training session be improved?
15% would have liked the course to be longer.
85% - no response.

Arranging a course

Martin Pollard, CEWC-Cymru's Education Officer, can provide training for both primary and secondary schools. We particularly recommend the 2-day Level 1 course, leading to the award of a certificate by SAPERE, the UK's leading body in this field. Alternatively, we can arrange 1-day introductory courses which explore the links between P4C, thinking skills, global citizenship and Personal and Social Education. For more information, contact **martinpollard@wcia.org.uk**.

If you would like more information on P4C, please visit **www.sapere.org.uk**.

www.cewc-cymru.org.uk

A NEW LOOK ON THE WEB…

From September 2007, we invite you to use a new version of our website, **www.cewc-cymru.org.uk**. As well as a more modern design and new teaching resources, the site will feature a section designed for young people. All of our clients, whatever their age, will be able directly to access information about our events and about active local and global citizenship.

The new site, which will be bilingual throughout, replaces the version in use since 1999. The main changes are as follows:

- *Citizenship Today* – improved online members' section (see below)
- New section for young people, with guidance on democratic participation and helpful information about CEWC-Cymru events
- Clean, modern look and enhanced accessibility for those with visual impairments or learning difficulties
- Updated and improved sections on all areas of our work
- Flexible content management system, allowing our staff and volunteers to organise and update information more easily

…AND NEW RESOURCES TOO

Citizenship Today ONLINE MEMBERSHIP

If you're a primary or secondary school teacher, you will soon be able to access the new version of our online membership system, *Citizenship Today*. The old version of this service provided two sets of lesson plans for PSE and citizenship education: one for Key Stages 1 and 2, and one for Key Stages 3 and 4. These have been revised and reformatted; and because there is now one unified membership service, all members can access all resources. Also provided is our *Skills for Democracy* teaching pack, which helps 13-16 year olds to develop skills such as critical thinking, compromise and debating.

Online membership will cost just **£30**, guaranteeing access to the above resources for at least 2 years. Reduced rates are available for subscribers to the previous version of *Citizenship Today*, and for new subscribers who also wish to become affiliated members of CEWC-Cymru. For full details, and to receive the service as soon as it is launched, e-mail **martinpollard@wcia.org.uk**.

Our website development work was funded by the European Union's Equal initiative, in partnership with the Electoral Commission, the Esmée Fairbairn Foundation, the Welsh Assembly Government, the European Youth Foundation and the Equitable Charitable Trust.

SPEAK OUT FOR WALES!

Julian Hodge Bank

Registration is now open for the **2007 Julian Hodge Bank Wales Schools Debating Championships**. All schools and colleges in Wales are invited to take part; last year 57 of them did so, with Howell's School (Cardiff) beating Elfed High School (Buckley) in the tournament Final. Participants in 2007 have the chance of representing Wales at the 2008 World Schools Debating Championships in Washington, D.C.

Don't worry if you haven't competed before: we also organise Debate Training Days to help students understand the basics of debating and polish their skills before the Championships begin. To request an entry form, e-mail **cewc@wcia.org.uk**.

STAFF UPDATES

We are sad to announce the departure of **Kate Wolstenholme**, who joined us in September 2004 as Assistant Education Officer.

Kate worked on three linked projects during her time at CEWC-Cymru. In *Training for Democracy* and *Skills for Democracy*, she helped schools establish effective school councils, provide other opportunities for democratic involvement, and develop skills for students to participate effectively. The third project, Inc*lusion*, saw her working on citizenship skills with disadvantaged students in special schools, pupil referral units and secure units for young offenders.

The enthusiasm and innovation with which Kate met these challenges resulted in a broadening of CEWC-Cymru's remit, the production of helpful teaching resources, and some ambitious plans for our website (see previous page). We wish her well in her new job with the Welsh Assembly Government, where she will continue to work on the development of school councils.

Also leaving us at the end of March was **Jamal Maxey**, who had worked as Secretarial Assistant since October 2006.

PLANNING FOR THE FUTURE

CEWC-Cymru exists to help young citizens develop the skills, knowledge and self-belief that will enable them to contribute to the future of Wales and the world.

This is CEWC-Cymru's new Mission Statement, reflecting the overall goal of our broad range of work. It forms part of our new Business Plan for April 2007 to March 2012, which highlights the increased scope and wider appeal of CEWC-Cymru's services, and suggests ways to enhance our future work.

The Strategic Aims outlined in the Business Plan are:

- To consolidate and increase schools' participation in our existing activities, and to enable a more diverse range of young people to benefit from them
- To undertake innovative and challenging projects which support teachers in delivering curricular requirements
- To ensure CEWC-Cymru's financial sustainability and continued effective delivery of all of its work
- To develop CEWC-Cymru as a modern, democratic organisation which responds more effectively to clients' needs
- To enhance CEWC-Cymru's role as a public advocate for global citizenship

To fulfil these aims, we intend to increase our core funding and appoint a Development Officer to work alongside the Education Officer. We are also seeking to involve young people more in decision making, and to consider establishing a CEWC-Cymru office in north Wales. All member schools are being sent a paper copy of the Business Plan. If you would like a further copy, e-mail **martinpollard@wcia.org.uk**.

Design elfen.co.uk

TEL (029) 2022 8549 FAX (029) 2064 0333 E-MAIL cewc@wcia.org.uk Reg. charity no. 1048759

CEWC-CYMRU TEMPLE OF PEACE • CATHAYS PARK • CARDIFF • CF10 3AP

CEWC CYMRU

CYNGOR ADDYSG MEWN DINASYDDIAETH BYD - CYMRU

CYLCHLYTHYR

HAF

07

Dinasyddiaeth weithredol i Gymru ac i'r byd

DINASYDDION SY'N MEDDWL: YR HER NEWYDD

Mae CEWC-Cymru wedi gweld cynnydd sylweddol yn y galw am **Athroniaeth i Blant (AiB)**, dull sy'n helpu disgyblion i ddatblygu eu sgiliau meddwl drwy archwilio'n agored syniadau yn y dosbarth. Yn ystod y flwyddyn ysgol 2006-07 rydym wedi cael cais i ddarparu 7 diwrnod hyfforddiant mewn swydd am hyn, yn ogystal â sesiynau byrrach a gwersi enghreifftiol yn y dosbarth. Mae'n dyddiadur hyfforddi ar gyfer 2007-08 eisoes yn llenwi.

Mae gwerth AiB yn cael ei amlygu gyda chyflwyno Sgiliau Meddwl yng nghwricwlwm cenedlaethol Cymru. O 2008, bydd angen i ysgolion ddatblygu meddwl beirniadol, myfyrio a hunanwerthuso ym mhob maes pwnc. Bydd y Fframwaith Addysg Bersonol a Chymdeithasol newydd hefyd yn pwysleisio bod sgiliau fel hyn yn sylfaen i holl gyfeiriad ABCh.

Dyma grynodeb o adborth a gafwyd mewn cwrs sgiliau meddwl diweddar gan CEWC-Cymru i benaethiaid ysgolion:

*Roedd 100% o'r rhai fu'n cymryd rhan yn **cytuno'n llwyr**:*
- "Mae cwrs heddiw wedi gwella ein gwybodaeth am sgiliau meddwl a sut y maen nhw'n berthnasol i ABCh/addysg dinasyddiaeth."
- "Mae'r cwrs wedi cynyddu ein diddordeb mewn sgiliau meddwl a'r dull Athroniaeth i Blant yn enwedig."

Pa ran(nau) o'r dydd oedd fwyaf defnyddiol i chi, a pham?
- "Roedd y diwrnod cyfan yn help mawr i ddeall a helpu cyflwyno dinasyddiaeth ac Athroniaeth i Blant. Roedd y defnydd o adnoddau mewn dosbarthiadau yn hynod ddefnyddiol."
- "Roedd y diwrnod cyfan yn ddefnyddiol i mi ac roeddwn yn gallu ei weld yn ffitio nid yn unig yn y Fframwaith ABCh ond hefyd yn gwella ethos yr ysgol."

Ym mha ffyrdd y gellid gwella'r math yma o sesiwn hyfforddi?
Byddai 15% wedi hoffi cael cwrs hirach.
85% - dim ateb.

Trefnu cwrs

Gall Martin Pollard, Swyddog Addysg CEWC-Cymru, ddarparu hyfforddiant i ysgolion cynradd ac uwchradd. Rydym yn argymell yn arbennig y cwrs Lefel 1 o ddau ddiwrnod, sy'n arwain at ddyfarnu tystysgrif gan SAPERE, prif gorff y DU yn y maes hwn. Neu gallwn drefnu cyrsiau cyflwyno undydd sy'n edrych ar y cysyllltiadau rhwng AiB, sgiliau meddwl, dinasyddiaeth fyd-eang ac Addysg Bersonol a Chymdeithasol. Am ragor o wybodaeth cysylltwch â **martinpollard@wcia.org.uk.**

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am AiB, ewch i **www.sapere.org.uk**.

www.cewc-cymru.org.uk

GOLWG NEWYDD AR Y WE…

O fis Medi 2007, fe'ch gwahoddwn i ddefnyddio fersiwn newydd o'n gwefan, **www.cewc-cymru.org.uk**. Yn ogystal â dylunio mwy modern ac adnoddau addysgu newydd, bydd y wefan yn cynnwys adran benodol i bobl ifanc. Bydd pob un o'n cleientiaid, beth bynnag yw eu hoedran, yn gallu hygyrchu gwybodaeth yn uniongyrchol am ein digwyddiadau ac am ddinasyddiaeth leol a byd-eang weithredol.

Bydd y safle newydd, sy'n gwbl ddwyieithog, yn disodli'r fersiwn sydd wedi bod yn ei lle ers 1999. Dyma'r prif newidiadau:
- *Dinasyddiaeth Heddiw* – gwell adran arlein i aelodau (gweler isod)
- Adran newydd i bobl ifanc, gydag arweiniad ar gyfranogiad democrataidd a gwybodaeth ddefnyddiol am ddigwyddiadau CEWC-Cymru
- Golwg glân a modern a gwell hygyrchedd i'r rhai sydd â nam gweledol neu anawsterau dysgu
- Adrannau wedi'u diweddaru a'u gwella ar bob maes o'n gwaith
- System rheoli cynnwys hyblyg, yn caniatáu i'n staff a'n gwirfoddolwyr drefnu a diweddaru gwybodaeth yn haws

…AC ADNODDAU NEWYDD HEFYD

Dinasyddiaeth Heddiw
AELODAETH AR-LEIN

Os ydych chi'n athro ysgol gynradd neu uwchradd, cyn bo hir byddwch yn gallu cael mynediad i fersiwn newydd o'n system aelodaeth arlein, *Dinasyddiaeth Heddiw*. Roedd hen fersiwn y gwasanaeth hwn yn darparu dau set o gynlluniau gwersi ar gyfer ABCh ac addysg dinasyddiaeth: un ar gyfer Cyfnodau Allweddol 1 a 2, ac un ar gyfer Cyfnodau Allweddol 3 a 4. Mae'r rhain wedi cael eu hadolygu a'u hailformatio; a gan fod gennym un gwasanaeth aelodaeth unedig bellach, gall ein haelodau fynd at yr holl adnoddau hyn. Mae'r pecyn *Sgiliau ar gyfer Democratiaeth* yno hefyd, sy'n helpu rhai rhwng 13 a 16 oed i ddatblygu sgiliau fel meddwl yn feirniadol, cyfaddawdu a dadlau.

Dim ond **£30** fydd aelodaeth arlein, sy'n gwarantu mynediad i'r adnoddau hyn am o leiaf 2 flynedd. Mae cyfraddau gostyngol ar gael i danysgrifwyr hen fersiwn *Dinasyddiaeth Heddiw*, ac i danysgrifwyr newydd sydd hefyd am ddod yn aelodau llawn o CEWC-Cymru. Am fanylion, ac i dderbyn y gwasanaeth cyn gynted ag y caiff ei lansio, e-bostiwch **martinpollard@wcia.org.uk**.

Cafodd y gwaith o ddatblygu ein gwefan ei gyllido gan Fenter Equal yr Undeb Ewropeaidd, mewn partneriaeth gyda'r Comisiwn Etholiadol, Sefydliad Esmée Fairbairn, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Sefydliad Ieuenctid Ewrop a'r Equitable Charitable Trust.

LLEISIO BARN DROS GYMRU!

Banc Julian Hodge

Mae'n amser cofrestru ar gyfer **Pencampwriaethau Dadlau Ysgolion Cymru Banc Julian Hodge 2007**. Gwahoddir pob ysgol a choleg yng Nghymru i gymryd rhan; y llynedd bu 57 ohonynt yn cystadlu, gydag Ysgol Howell's (Caerdydd) yn curo Ysgol Uwchradd Elfed (Bwcle) yn rownd derfynol y twrnamaint. Mae gan cystadleuwyr yn 2007 y cyfle i gynrychioli Cymru ym Mhencampwriaethau Dadlau Ysgolion y Byd 2008 yn Washington, D.C.

Peidiwch â phoeni os nad ydych wedi cystadlu o'r blaen: rydym hefyd yn trefnu Dyddiau Hyfforddi Dadlau i helpu myfyrwyr ddeall elfennau sylfaenol dadlau a gwella eu sgiliau cyn i'r Pencampwriaethau gychwyn. I ofyn am ffurflen gais, e-bostiwch **cewc@wcia.org.uk**.

Y DIWEDDARAF AM EIN STAFF

Trist yw cyhoeddi ymadawiad **Kate Wolstenholme**, a ymunodd â ni ym mis Medi 2004 yn Swyddog Addysg Cynorthwyol.

Bu Kate yn gweithio ar dri phrosiect cysylltiedig yn ystod ei chyfnod gyda CEWC-Cymru. *Yn Hyfforddi ar gyfer Democratiaeth* a *Sgiliau ar gyfer Democratiaeth*, bu'n helpu ysgolion i sefydlu cynghorau ysgol effeithiol, yn darparu cyfleon newydd ar gyfer cyfranogiad democrataidd ac yn datblygu sgiliau i fyfyrwyr gymryd rhan yn effeithiol. Gyda'r trydydd prosiect, Inc*lusion,* bu'n gweithio ar sgiliau dinasyddiaeth gyda myfyrwyr dan anfantais mewn ysgolion arbennig, unedau cyfeirio disgyblion ac unedau diogel i droseddwyr ifanc.

Arweiniodd brwdfrydedd ac arloesedd Kate wrth gwrdd â'r heriau hyn at ehangu cylch gorchwyl CEWC-Cymru, cynhyrchu adnoddau addysgu defnyddiol, a rhai cynlluniau uchelgeisiol ar gyfer ein gwefan (gweler y dudalen flaenorol). Dymunwn yn dda iddi yn ei swydd newydd gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru, lle bydd yn parhau i weithio ar ddatblygu cynghorau ysgol.

Un arall a'n gadawodd ddiwedd Mawrth oedd **Jamal Maxey**, fu'n gweithio gyda ni fel Cynorthwy-ydd Ysgrifenyddol ers mis Hydref 2006.

CYNLLUNIO AT Y DYFODOL

Mae CEWC-Cymru'n bodoli i helpu dinasyddion ifanc i ddatblygu eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u hunanhyder fydd yn eu galluogi i gyfrannu tuag at ddyfodol Cymru a'r byd.

Dyma Ddatganiad o Fwriad newydd CEWC-Cymru, gan adlewyrchu nod cyffredinol ein hamrediad gwaith eang. Mae'n ffurfio rhan o'n Cynllun Busnes newydd ar gyfer Ebrill 2007 i Fawrth 2012, sy'n amlygu cwmpas cynyddol ac apêl ehangach gwasanaethau CEWC-Cymru, ac yn awgrymu ffyrdd i wella ein gwaith yn y dyfodol.

Dyma'r Amcanion Strategol a amlinellir yn y Cynllun Busnes:
- Cadarnhau a chynyddu cyfranogiad ysgolion yn ein gweithgareddau presennol, a galluogi pobl ifanc mwy amrywiol i elwa yn eu sgil
- Cynnal prosiectau arloesol a heriol sy'n cefnogi athrawon wrth gyflwyno gofynion y cwricwlwm
- Sicrhau cynaliadwyedd ariannol CEWC-Cymru a pharhau i gyflwyno ei holl waith yn effeithiol
- Datblygu CEWC-Cymru fel sefydliad modern, democrataidd sy'n ymateb yn fwy effeithiol i anghenion cleientiaid
- Gwella rôl CEWC-Cymru fel hyrwyddwr cyhoeddus dros ddinasyddiaeth fyd-eang

Er mwyn cyflawni'r amcanion hyn, bwriadwn gynyddu ein cyllido craidd a phenodi Swyddog Datblygu i weithio ochr yn ochr â'r Swyddog Addysg. Rydym hefyd yn ceisio cynnwys pobl ifanc yn fwy yn y gwaith o wneud penderfyniadau, ac i ystyried sefydlu swyddfa CEWC-Cymru yng ngogledd Cymru. Bydd copi papur o'r Cynllun Busnes yn cael ei anfon at bob ysgol sy'n aelod. Os hoffech dderbyn copi arall, e-bostiwch **martinpollard@wcia.org.uk**.

FFÔN (029) 2022 8549 FFACS (029) 2064 0333 E-BOST cewc@wcia.org.uk Elusen gof. rhif 1048759

CEWC-CYMRU Y DEML HEDDWCH • PARC CATHAYS • CAERDYDD • CF10 3AP

Dylunio elfen.co.uk